Lefel 2

CRYNODEB YMATEB YMGYSYLLTU

Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd

MAI 2018

Crynodeb Ymgysylltu – Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd

Cyflwyniad

Ym mis Mawrth 2017, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru benderfyniad i gyfyngu ar gyfres newydd o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant[1] yng Nghymru. Mae'r gyfres hon yn cynnwys y cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd a fydd ar gael i'w addysgu o fis Medi 2019. Mae'r cymhwyster Lefel 2 Craidd newydd hwn yn cael ei ddatblygu gan gonsortiwm cyrff dyfarnu o City & Guilds London Institute a CBAC (y Consortiwm) a hon fydd yr unig fersiwn o'r cymhwyster a fydd ar gael i ddysgwyr ar raglenni a ariennir gan y wladwriaeth yng Nghymru.

Rhwng 22 Tachwedd a 19 Ionawr, gwnaethom gynnal gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd, a oedd yn cynnwys grwpiau ffocws wyneb yn wyneb ac arolwg ar-lein. Yn y gweithgareddau ymgysylltu hyn, gwnaethom ofyn cwestiynau ynghylch y nodau ac amcanion pwnc arfaethedig, cynnwys pwnc a threfniadau asesu a nodir yn y Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer y cymhwyster newydd Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd.

Crynodeb ymgysylltu

Gwnaethom gynnal pum grŵp ffocws ledled Cymru yn ystod y cyfnod ymgysylltu, yn Wrecsam, Bangor, Abertawe a Chasnewydd a daeth cyfanswm o 138 o unigolion i'r digwyddiadau hyn. Amlinellodd y grwpiau ffocws ddiben yr ymgysylltu, gan grynhoi'r gweithgarwch prosiect hyd yma a chaniatáu i'r sawl a oedd yn bresennol ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau ar y strwythur, y cynnwys a'r trefniadau asesu a gynigiwyd ar gyfer y cymhwyster yn y ddogfen meini prawf cymeradwyo. Daeth 79 o ymatebion llawn neu rannol i law i'n harolwg ar-lein.

Nodau ac amcanion pwnc

Roedd ein gweithgareddau ymgysylltu yn gofyn am adborth ar ein nodau ac amcanion asesu pwnc arfaethedig. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'n cynigion, gydag un ymatebydd yn nodi eu bod "*yn glir ac yn gryno*" ac un arall yn nodi bod y dull gweithredu "*yn syniad da er mwyn sicrhau bod gan ddysgwyr yr holl wybodaeth sylfaenol sydd ei hangen arnynt ar ddechrau eu taith dysgu*".

Ychydig iawn o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig. Fodd bynnag, gofynnodd rhai o'r ymatebwyr am eglurhad ynghylch rôl chwarae yn y cymhwyster. Yn dilyn sylwadau gan y sector, mae chwarae wedi'i gynnwys yn y teitl, er ei fod wedi'i nodi mewn lle gwahanol o fewn y teitl, h.y. Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant.

[1] http://qualificationswales.org/media/2534/230517-determination-to-restrict-hsc-final-w.pdf

Cynllun asesu

Yn ystod ein gweithgareddau ymgysylltu, gwnaethom ofyn cwestiwn am y cynllun asesu.

Cytunodd tua hanner yr ymatebwyr â'r cynllun asesu gydag un ymatebydd yn nodi ei fod *"yn hoffi'r ffaith bod rhan o'r asesiad yn cael ei gynnal yn allanol*". Ychydig iawn o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno. Awgrymodd rhai unigolion a ddewisodd naill ai 'cytuno', 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno' neu 'anghytuno' y dylid cynyddu canran yr asesiad a gynhelir yn allanol. Deallwn y bydd trylwyredd a chysondeb yr asesiad allanol yn gwella cysondeb y wybodaeth a ddysgir gan ymgeiswyr ledled y gweithlu. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod pwysigrwydd a gwerth asesiad mewnol a'r gofyniad i sicrhau cydbwysedd priodol rhwng asesiad mewnol ac allanol, a'r gallu i gymharu'r asesiad â'r cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd. Ar ôl ystyried y materion hyn a'r ymatebion, rydym wedi penderfynu cadw'r cydbwysedd a gynigiwyd gennym.

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn pryderu am y ffaith bod dadansoddi a gwerthuso wedi'u cynnwys yn yr amcanion asesu ar gyfer y cymhwyster hwn. Mewn ymateb i hynny, rydym wedi dileu'r amcanion asesu dadansoddi a gwerthuso (AO3).

Yn wreiddiol, cynigiwyd y gallai dysgwr gyflawni'r asesiad ar ôl cwblhau gwerslyfrau'r cwrs. Cafwyd sawl sylw gan ymatebwyr ynglŷn â hyn. Rydym wedi dileu'r angen i gwblhau gwerslyfrau fel un o ofynion rheoleiddiol y Meini Prawf Cymeradwyo.

Graddio

Yn ystod y broses ymgysylltu, gwnaethom ofyn i'r ymatebwyr am y datganiad o ganlyniad arfaethedig, sef "llwyddo neu fethu". Er bod tua hanner yr ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig, roedd lleiafrif ohonynt yn anghytuno. Cododd rhai ohonynt gwestiynau ynghylch cyfleoedd i ailsefyll.

"*os byddwch yn methu, a allwch ailsefyll? os felly, sawl gwaith?*"

Rydym wedi egluro y caiff dysgwyr eu cofrestru ar gyfer y cymhwyster pan fyddant yn barod ac y byddant hefyd yn cael cyfle i ailsefyll. Bydd cyfleoedd i ailsefyll yn rhoi gwell siawns i'r dysgwr basio.

Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr y dylai fod graddfa raddio o basio, teilyngdod a rhagoriaeth "*er mwyn cydnabod y myfyrwyr hynny sy'n gweithio'n eithriadol o dda*". Ar ôl ystyried hynny, rydym wedi cadw at y datganiad canlyniad arfaethedig o basio neu fethu.

Teitl y cymhwyster

Yn ein gweithgareddau ymgysylltu, gwnaethom gynnig mai'r teitl canlynol y dylid ei roi i'r cymhwyster:

Lefel 2 Gofal, Dysgu, Datblygiad a Chwarae Plant: Craidd.

Derbyniwyd amrywiaeth o sylwadau o blaid y teitl hwn.

"Ymddengys fod y teitl yn adlewyrchu cynnwys a diben y cwrs, felly mae'n iawn." "Dwi'n hapus gyda'r teitl." "Dwi'n dwli ar y teitl!"

Yn dilyn y gweithgarwch ymgysylltu, aethom ati i ailstrwythuro teitl y cymhwyster i Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd.

Cymorth ac adnoddau

Drwy ein gweithgareddau ymgysylltu, gwnaethom holi'r ymatebwyr ynghylch pa gymorth ac adnoddau y byddai eu hangen ar ganolfannau ac ymarferwyr yn eu barn nhw. Ymysg yr ymatebion roedd datblygu aseswyr, amrywiaeth o adnoddau dysgu, canllawiau arfer gorau a gwerslyfrau. Rydym wedi rhannu'r wybodaeth hon â'r consortiwm cyrff dyfarnu er mwyn cefnogi'r broses o gynllunio eu rhaglen rheoli newid.

Rhagor o wybodaeth	Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at: Ymholiadau Cymwysterau Cymru Adeilad Q2 Lôn Pencarn Parc Imperial Coedcernyw Casnewydd NP10 8AR Ymholiadau@cymwysteraucymru.org